Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

Enw'r Polisi: **Diogelu Pobl Ifanc ac Oedolion Bregus**
Côd dogfen (os yn berthnasol)

Adran: Gwasanaethau Myfyrwyr

Awdur y Ddogfen: Joe Baldwin

Teitl Swydd: Director of Learner Services

Dyddiad Cymeradwyaeth: April 2018

Dyddiad Adolygu: April 2019

Coleg Penybont yn swyddogol Rhagorol
Bridgend College officially announced Excellent
Byddwch yn bopeth y gallwch fod.
Be all that you can be.
Bridgend College Coleg Penybont
THE SUNDAY TIMES 100 BEST NOT-FOR-PROFIT ORGANISATIONS TO WORK FOR 2017
ASSOCIATION OF COLLEGES AOC BEACON AWARD WINNERS
tes Shortlisted Specialist provider of the year award
tes Shortlisted FE leader of the year award

Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

1. Pwrpas ac Amcanion:

Mae Coleg Penybont yn gwbl ymrwymedig i les myfyrwyr, staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Coleg yn weithredol yn hyrwyddo lles cadarnhaol y staff a myfyrwyr i gyd, gan gynnwys oedolion bregus a'r rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'n disgwyl i'r staff cyfan, gwirfoddolwyr a phartneriaid, gan gynnwys cyflogwyr cysylltiedig a darparwyr lleoliadau gwaith, gymeradwyo ac arddangos yr ymrwymiad hwn bob amser.

Mae Coleg Penybont yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddatblygu myfyrwyr mewn ffyrdd a fydd yn meithrin diogelwch, hyder ac annibyniaeth, gan alluogi myfyrwyr i fod yn bopeth y gallant fod. Rydym yn cydnabod bod Coleg ac amgylchedd gwaith sy'n saff a diogel yn ganolog i les pob myfyriwr ac mae côd Dinasyddiaeth y Coleg yn ganolog i alluogi hyn, gan ategu tri disgwyliad ymddygiad:

- Byddwch yn Barod
- Byddwch yn Barchus
- Byddwch yn Ddiogel

Mae pawb sy'n gweithio yn neu ar gyfer Coleg Penybont yn rhannu nod cyffredin, sef helpu cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel trwy gyfrannu at:

- ddarparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc ddysgu a datblygu
- dynodi'r plant a'r bobl ifanc sy'n dioddef neu sy'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, a chymryd camau priodol gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel.

Rydym yn dymuno galluogi'r staff a'r gwirfoddolwyr i gyd ddilyn 4 egwyddor allweddol:

1. Adnabod (arwyddion a symptomau)
2. Ymateb
3. Adrodd
4. Cofnodi

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â chyfrifoldebau statudol y coleg sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus a dyletswyddau o dan y ddyletswydd Atal.

2. Manylion y Polisi:

Nodir yr amcanion allweddol sy'n ymwneud â'r polisi hwn mewn deddfwriaeth diogelu, sy'n cynnwys: 'Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008', 'Canllawiau Amddiffyn Oedolion 2010', 'Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel rhif ddogfen 158/2015' a 'Chanllawiau'r Ddyletswydd Atal 2015'.

Bydd y Coleg yn cydymffurfio'u canllawiau a gweithdrefnau gyda'r Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin *(WBSCB)*.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ychwanegol i'w gweld yn atodiad 1. Bydd y dogfennau hyn, ynghyd â'r polisi hwn, yn galluogi'r coleg i gydymffurfio â gofynion o dan gyrff statudol gan gynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a DfES.

3. Cyfrifoldeb (os yn berthnasol):

Mae'r Corff Llywodraethol wedi ymrwymo i sicrhau bod y Coleg yn:

- Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelu a hybu lles plant a phobl ifanc yn y Coleg.
- Darparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc.
- Dynodi plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o gael niwed sylweddol, a chymryd camau priodol er mwyn sicrhau bod y plant a phobl ifanc felly yn cael eu cadw'n ddiogel yn y Coleg.
- Defnyddio gweithdrefn ar gyfer adrodd a delio gyda honiadau o gamdriniaeth yn erbyn aelodau staff, dysgwyr eraill a gwirfoddolwyr.
- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel.
- Enwi aelod staff sydd ag awdurdod digonol i gymryd cyfrifoldeb arweiniol dros amddiffyn plant, diogelu a'r ddyletswydd Atal.
- Gwella unrhyw ddiffygion neu wendidau o ran trefniadau diogelu sy'n cael eu dwyn i sylw'r Corff Llywodraethol.

Bydd y Corff Llywodraethol yn adolygu a chymeradwyo Polisi a Gweithdrefn y Coleg yn flynyddol.

Llywodraethwr Dynodedig sydd â chyfrifoldeb dros Ddiogelu

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig yn gyfrifol am gysylltu â'r Pennaeth a'r Uwch Berson Dynodedig (UBD) i sicrhau:

- Mae Polisi'r Coleg yn bodloni gofynion y Bwrdd Diogelu Plant Lleol;
- Caiff y Polisi ei adolygu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethol; a
- Hysbysebir y Corff Llywodraethol am sut y mae'r Coleg a'i staff wedi cydymffurfio â'r polisi (gan gynnwys yr hyfforddiant a ymgymerwyd).

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig hefyd yn gyfrifol am oruchwylio cyswllt gydag asiantaethau priodol mewn cysylltiad â honiadau yn erbyn y Pennaeth. Ni fydd hyn yn golygu cynnal ymchwiliad

ffurfiol ond bydd yn sicrhau bod partïon yn cyfathrebu, ac yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo ymholiadau.

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni'r dyletswyddau.

Uwch Berson Dynodedig (UBD)

Bydd yr Uwch Berson Dynodedig (UBD) sy'n gyfrifol am ddiogelu, amddiffyn plant ac Atal yng Ngholeg Penybont yn:

- Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr i gyd yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ar adnabod, ymateb ac adrodd ar bryderon.
- Gweithio fel pwynt cyswllt uniongyrchol ar gyfer asiantaethau allanol, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Plant Lleol.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Corff Llywodraethol sy'n adolygu sut y mae'r dyletswyddau wedi'u cyflawni, gan gynnwys hyfforddiant staff ac unrhyw argymhellion.
- Gweithio fel pwynt cyswllt uniongyrchol ar gyfer Atal ac adrodd am bryderon i Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) .

Uwch Berson â chyfrifoldeb dros Staff

Bydd y Cyfarwyddwr Pobl yn:

- Sicrhau bod recriwtio staff (parhaol a dros dro) a defnyddio gwirfoddolwyr yn dilyn y canllawiau recriwtio diogel, gan gynnwys defnyddio gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Chyngor y Gweithlu Addysg.
- Cydweithio gyda'r Uwch Berson Dynodedig (UBD) i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr i gyd yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ar adnabod, ymateb ac adrodd ar bryderon.
- Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr newydd yn cael hyfforddiant fel rhan o broses sefydlu ehangach ar weithdrefnau diogelu yn y coleg, a'u bod yn gallu cyrchu'r ddogfen hon.
- Sicrhau bod y mecanweithiau'n bodoli er mwyn sicrhau bod y defnydd o staff dros dro a staff asiantaeth yn cydymffurfio â chyfrifoldebau a gweithdrefnau diogelu'r coleg.

Rheolwr Lles a Diogelu Dynodedig

- Sicrhau bod ymgeiswyr sydd â chollfarn droseddol datguddiedig yn cael eu hasesu'n briodol ac yn gadarn trwy ymchwilio datgeliadau ac asesu risgiau cysylltiedig i'w hunain ac i eraill yn seiliedig ar eu cais i astudio.

- Cysylltu â chyflogwyr a sefydliadau hyfforddi sy'n derbyn myfyrwyr o'r coleg ar leoliadau tymor byr neu hir (prentisiaid, hyfforddeion, internfeydd a lleoliadau gwaith) i sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu priodol yn weithredol.

- Sicrhau amgylchedd ar-lein diogel trwy hidlo a monitro gweithgaredd gan ddefnyddio meddalwedd priodol ac ymchwilio i unrhyw logiau sy'n adrodd ar ddigwyddiadau ar-lein.

- Sicrhau bod yr holl bryderon diogelu yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn ddiogel yn unol â rheoliadau diogelu data.

- Cysylltu â'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol fel bo'n briodol.

Swyddogion Lles y Myfyrwyr

Mae Swyddogion Lles y Myfyrwyr yn aelodau dynodedig y tîm diogelu ac maent yn gyfrifol am:

- Darparu cyswllt rheng flaen ar gyfer adrodd am bryderon diogelu.

- Rhoi cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i staff a myfyrwyr.

- Cyfeirio amheuon o gamdriniaeth, honiadau o gamdriniaeth neu achosion o niwed i'r asiantaethau perthnasol.

- Cadw cofnodion cywir o unrhyw atgyfeiriadau, cwynion neu bryderon diogelu (hyd yn oed pan na fydd y pryderon hynny'n arwain at atgyfeiriadau) yn unol â rheoliadau diogelu data.

- Ymdrin ag achosion unigol, gynnwys mynychu cynadleddau achos a chyfarfodydd adolygu fel y bo'n briodol.

- Cadw'r Rheolwr Lles a Diogelu Dynodedig sydd â chyfrifoldeb dros Ddiogelu yn y Coleg yn hysbys am bob amheuaeth o gamdriniaeth, honiad o gamdriniaeth, neu achos o niwed.

Y Rheolwr Cofrestredig – Tŷ Weston

Mae'r Rheolwr Cofrestredig dynodedig ar gyfer Tŷ Weston, darpariaeth breswyl arbenigol y coleg, yn gyfrifol am ddiogelu myfyrwyr preswyl ac am sicrhau bod y prosesau adrodd yn bodloni'r gofynion o dan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

Y Rheolwr Cofrestredig – Meithrinfa Ddydd Coleg Penybont

Mae'r Rheolwr Cofrestredig dynodedig ar gyfer Meithrinfa Ddydd Coleg Penybont yn gyfrifol am ddiogelu plant sy'n mynychu'r feithrinfa a'r cynllun chwarae dros y gwyliau, ac am sicrhau bod y prosesau adrodd yn bodloni'r gofynion o dan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

Staff Cyfan

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb i gysylltu ag aelod o'r Tîm Lles os oes pryder ganddynt ynglŷn â myfyriwr sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei radicaleiddio.

Mae dyletswydd ar bob aelod staff i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn a chwblhau hyfforddiant a diweddariadau diogelu rheolaidd.

Rhaid i bob aelod staff fod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran atal eithafiaeth dreisgar a di-drais.

4. Recriwtio a Dethol yn Ddiogel

Bydd Coleg Penybont yn sicrhau bod yr holl fesurau priodol yn cael eu gweithredu o ran pawb sy'n gweithio yn y Coleg sy'n debygol o gael eu hystyried gan y myfyrwyr fel oedolyn diogel a dibynadwy, gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff a gyflogir gan gontractwyr.

Bydd y coleg yn ymrwymo i sicrhau bod o leiaf un aelod o'r panel cyfweld wedi derbyn hyfforddiant 'Recriwtio Mwy Diogel'.

Mae'r arfer recriwtio mwy diogel a fabwysiadwyd gan y coleg yn cynnwys craffu ar ymgeiswyr; gwirio hunaniaeth a chymwysterau academaidd a galwedigaethol; sicrhau tystlythyrau proffesiynol; gwirio hanes cyflogaeth flaenorol; a sicrhau bod gan ymgeiswyr y gallu iechyd a chorfforol i wneud y swydd. Mae hefyd yn cynnwys cynnal cyfweliadau a gwirio statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg yr ymgeisydd, ynghŷd â'i statws a'i hawl i weithio ac aros yn y DU.

Ar gyfer staff cyflenwi, bydd y Coleg yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig bod y busnes cyflogi sy'n darparu'r gweithiwr cyflenwi wedi cynnal y gwiriadau perthnasol, wedi cael y tystysgrifau priodol, a oes unrhyw dystysgrif wirio DBS uwch wedi'i ddarparu mewn perthynas â'r gweithiwr cyflenwi, a'r dyddiad a gafodd y cadarnhad ei dderbyn.

Ni fydd gwirfoddolwr, nas derbyniwyd unrhyw wiriadau amdano, o dan unrhyw amgylchiadau yn cael ei adael heb oruchwyliaeth na'i ganiatáu i weithio mewn gweithgaredd rheoledig gyda pherson dan 18 oed.

Pan gaiff gwasanaethau fel cludiant myfyrwyr eu caffael, bydd gofynion contractio yn amlinellu gofyniad y coleg bod unrhyw oedolyn mewn cysylltiad uniongyrchol â myfyrwyr Coleg Penybont yn meddu ar wiriad DBS uwch dilys.

5. Perthnasau a Ffiniau Proffesiynol

Mae Coleg Penybont yn cydnabod y bydd perthnasau proffesiynol cadarnhaol gyda myfyrwyr yn cefnogi'r canlyniadau gorau. Mae ffiniau proffesiynol priodol yn diogelu myfyrwyr ac yn diogelu staff rhag honiadau di-sail. Mae'n brif ddyletswydd ar y coleg i ddarparu amgylchedd dysgu saff a diogel ac i amddiffyn lles ei fyfyrwyr a'i staff.

Mae'n hanfodol bod staff yn ystyried eu hymddygiad o ran cyfathrebu gyda myfyrwyr wyneb yn wyneb ac yn electronig.

5.1 Cyfryngau Cymdeithasol

Nid yw'r coleg yn cymeradwyo cysylltu â myfyrwyr trwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol, gan gynnwys derbyn ceisiadau cyfeillion/dilyn/cysylltiad trwy blatfformau o'r fath.

Lle defnyddir cyfrifon sy'n perthyn i gwricwlwm neu gwrs neu fannau ar-lein i gyfathrebu â dysgwyr, dylid cydymffurfio â Pholisi Defnydd Derbyniol a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol y coleg.

5.2 Ymweliadau Cartref

Dylid ymdrechu i gynnal cyfarfodydd yn y Coleg. Lle na ellir cyflawni hyn, disgwylir y bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau ac y bydd dau aelod staff y coleg yn mynychu'r ymweliad.

5.3 Cludo Myfyrwyr

Lle bynnag y bo'n bosibl, disgwylir i gludiant y coleg (bysiau mini neu geir) cael eu defnyddio at ddibenion cludo myfyrwyr. Ni ddylai unrhyw aelod staff gludo dysgwr heb y lefelau yswiriant priodol. Dylai staff sicrhau bod y gofynion treth a MOT perthnasol yn gyfredol, a bod y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio yn addas ar gyfer y ffordd fawr, ac nid oes mwy o bobl yn cael eu cludo na'r uchafswm a ddeil y cerbyd.

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod pob teithiwr yn gwisgo gwregys diogelwch, a chyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau eu bod yn gwneud hynny.

Ni ddylai staff gludo myfyrwyr ar eu pennau eu hunain. Mewn sefyllfa lle nad oes ail aelod staff ar gael, dylid defnyddio tacsi a chodi tâl ar gyfrif y coleg.

5.4 Ffotograffiaeth a Fideo

Lle mae ffotograffiaeth neu fideo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tystiolaeth cymhwysterau neu ddibenion marchnata, rhaid i'r holl ddeiliaid rhoi caniatad i'r delweddau a'r ffilm gael eu defnyddio. Rhaid i staff gofio y bydd rhai myfyrwyr yn cael eu hamddiffyn o dan Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd (PPN), neu gallant fod yn blentyn mewn gofal sydd mewn lleoliad mewn awdurdod lleol gwahanol i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn. Gallai defnyddio ffilm a delweddau fynd yn groes i fyfyrwyr sydd mewn sefyllfa o'r fath, a'u rhoi mewn perygl o gael niwed.

6. Cyfrinachedd

Nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt, a gellir ei dorri lle y mae er lles y myfyrwyr ac er budd y cyhoedd ehangach. Os yw gweithwyr proffesiynol yn barnu bod datgelu yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn y person ifanc neu eraill rhag perygl niwed difrifol, gellir torri cyfrinachedd.

Rhaid i staff beidio â datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â myfyrwyr, eu lles, neu wybodaeth bersonol heb ganiatâd pendant i wneud hynny gan yr Uwch Berson Dynodedig (UBD) neu'r Rheolwr Diogelu a Lles Dynodedig. Mae'r amod hwn yn cynnwys sefyllfaoedd lle gall aelod staff dderbyn cais am wybodaeth gan riant, gwarchodwr, neu'r heddlu. Mae'n ofynnol i'r heddlu ddarparu Ffurflen Gais Data Personol i'r coleg a gwblhawyd gan Dditectif Arolygydd.

7. Plant sy'n Colli Addysg

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar helpu atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, bydd y coleg yn ymdrechu sicrhau bod y Bwrdd Diogelu Plant Lleol yn cael eu hysbysebu lle godir pryderon am ddiffyg presenoldeb myfyriwr y credir sydd mewn perygl, neu lle godir pryderon sy'n ymwneud â diffyg presenoldeb.

8. Diogelwch Ar-lein ac e-Ddiogelwch

Mae'r coleg yn cadw'r hawl i fonitro defnydd y systemau TG, Wi-Fi, a dyfeisiau eraill sy'n eiddo i'r coleg. Mae'r coleg yn defnyddio lefelau mur gwarchod priodol er mwyn lleihau'r perygl y bydd myfyrwyr yn cyrchu cynnwys a'u hystyrir yn amhriodol. Mae'r coleg hefyd yn defnyddio meddalwedd monitro sy'n gallu canfod trawiadau bysellau yn seiliedig ar lyfrgelloedd bygythiad geirfa lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Galluogir monitro o'r fath hysbysebu digwyddiadau uniongyrchol i'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelu yn y coleg, gan ddarparu gwybodaeth allweddol am natur y digwyddiad, rhif yr ased, a'r defnyddiwr. Defnyddir monitro er mwyn sicrhau diogelwch pob myfyriwr ac i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â meithrin perthnasau amhriodol ar-lein, camfanteisio rhywiol, masnachu pobl, radicaleiddio, eithafiaeth, a gweithgareddau anghyfreithlon eraill.

9. Radicaliaeth ac Eithafiaeth

Mae'r coleg yn ceisio diogelu ei fyfyrwyr yn erbyn negeseuon eithafiaeth dreisgar, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig ag ideoleg Islamaidd, mudiadau'r dde eithafol a mudiadau hawliau anifeiliaid eithafol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Mae Atal yn digwydd cyn i unrhyw weithgarwch troseddol ddigwydd trwy gydnabod, cefnogi a diogelu pobl a allai fod yn agored i gael eu radicaleiddio.

Cyflawnir hyn trwy:

- Mewnblannu "Gwerthoedd Prydeinig" yn y cwricwlwm.
- Adeiladu dealltwriaeth staff a myfyrwyr o'r problemau, a'u hyder i ddelio gyda nhw trwy ddatblygu staff, tiwtorialau arbenigol, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.
- Dwysáu ymgysylltiad â chymunedau lleol a grwpiau ffydd.
- Gweithio'n galed gyda Grŵp Atal Pen-y-bont ar Ogwr sydd â chynrychiolwyr o'r Heddlu, yr Awdurdodau Lleol, a'r gwasanaethau Iechyd, Addysg, Prawf a Thân ac Achub.

10. Dogfennau Cysylltiedig

Mae rhestr o ddeddfwriaeth allweddol a chanllawiau pellach i'w gweld yn atodiad 1.

11. Adolygiad y ddogfen

Caiff y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig eu hadolygu'n flynyddol, er eu diweddaru yn unol â chyhoeddiad unrhyw ganllawiau neu ddeddfwriaeth statudol.

Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

Gweithdrefn Adrodd pryderon Diogelu

ADNABOD

Newid mewn ymddygiad, presenoldeb neu olwg? Wedi clywed sôn am rywbeth?

YMATEB

Ymateb yn gadarnhaol i'r dysgwr - peidiwch â beirniadu, annog neu gwestiynu beth sy'n cael ei ddweud wrthoch.

ADRODD

Myfyrwyr: wellbeing@bridgend.ac.uk neu 01656 302 302 est 488

Staff: Rhoi gwybod i Sam Morgan, Cyfarwyddwr Pobl

sjmorgan@bridgend.ac.uk or 01656 302 302 ext 288

COFNODI

Ymchwilir pryderon gan arweinydd diogelu hyfforddedig gyda chyfranogiad rhyng-asiantaethol lle bo angen.

Cofnodir cynnydd a chanlyniadau i gyd ar gronfa ddata diogelu diogel canolog.

Atodiad 1: Deddfwriaeth a Chanllawiau*

Diogelu Plant mewn Addysg 2008
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130509-safeguarding-children-in-education-en.pdf

Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2015
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150114-keeping-learners-safe-en.pdf

Canllawiau Statudol i helpu cadw plant a phobl ifanc rhag colli addysg 2017
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170323-statutory-guidance-to-help-prevent-children-and-young-people-from-missing-education-en.pdf

Deddf Addysg 2002 (adran 175)

Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

Deddf Plant 1989

Deddf Plant 2004

Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006

Deddf Anffurfio Organau Rhywiol Benywod 2003

Deddf Troseddau Difrifol 2015

Deddf y Gororau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 (adran 55)

Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Canllawiau Dyletswydd Atal ar gyfer Cymru a Lloegr (diwygiwyd Gorffennaf 2015)

Canllawiau Dyletswydd Atal ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a Lloegr

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

**nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr*

Atodiad 2: Rhestr Termau Allweddol

Camdriniaeth: emosiynol	Cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus, fel y effeithir yn ddifrifol anfuddiol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol y plentyn.
Camdriniaeth: corfforol	Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol i blentyn fel arall. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu warchodwr yn ffugio symptomau neu'n achosi salwch mewn plentyn y maent yn gofalu amdano yn fwriadol.
Camdriniaeth: rhywiol	Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: • cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol a di-dreiddiol. • gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, deunydd pornograffig, neu wylio gweithgareddau rhywiol. • annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.
Gwerthoedd Prydeinig	Gwerthoedd a nodwyd fel rhan o'r Ddyletswydd Atal: democratiaeth, rheolaeth cyfraith, parch unigol a chyd-barch, goddef crefyddau a chredoau gwahanol.
Plentyn mewn angen	Mae plentyn yn blentyn mewn angen os: • mae'n annhebygol o gyflawni neu gadw, neu gael y cyfle i gyflawni neu gadw, safon iechyd neu ddatblygiad rhesymol heb i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau iddo/iddi. • mae'n debygol y bydd ei iechyd neu ddatblygiad yn cael ei amharu'n sylweddol, neu ei amharu ymhellach, heb i wasanaethau o'r fath cael eu darparu • mae ef/hi yn anabl.
Amddiffyn plant	Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hybu lles. Mae hyn yn cyfeirio at weithgarwch a wneir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.
Datblygiad	Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.
Eithafiaeth	Gwrthwynebiad llafar neu weithredol i Werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth cyfraith, parch unigol a chyd-barch a goddef crefyddau a chredoau gwahanol.
Niwed	Camdriniaeth neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, amhariad a ddioddefwyd o weld neu glywed eraill yn cael eu cam-drin.
Iechyd	Iechyd corfforol neu feddyliol.
Ideoleg	Set o gredoau.
Esgeulustod	Diffiniwyd esgeulustod gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 fel "methu â bodloni anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu

	seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at amhariad ar les y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person, neu yn achos plentyn, amharu ar ei ddatblygiad).
Radicaleiddio	Y broses lle mae person yn dod i gefnogi terfysgaeth a ffurfiau o eithafiaeth a all arwain at derfysgaeth.
Diogelu	Amddiffyn pobl fregus, boed o droseddau, mathau eraill o gamdriniaeth neu rhag cael eu denu i weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.
Niwed sylweddol	Mae Adran 31(10) y Ddeddf Plant 1989 yn mynegi "lle mae'r cwestiwn a yw'r niwed a ddioddefir gan blentyn yn sylweddol yn troi ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, cymharir ei iechyd neu ei ddatblygiad â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol mewn plentyn tebyg".
Terfysgaeth	Gweithred sy'n peryglu neu'n achosi trais, niwed neu aflonyddwch difrifol, ac y bwriedir iddo ddylanwadu ar y llywodraeth neu fygwth y cyhoedd, a wneir gyda'r bwriad o hyrwyddo agenda gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol.
Bregusrwydd	Ffactorau a nodweddion sy'n gysylltiedig â bod yn agored i gamdriniaeth, niwed neu radicaliaeth.
Oedolyn Bregus	Unigolion dros 18 oed sydd angen, neu gallai fod angen, gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anableddau meddygol neu anableddau eraill, eu hoedran, salwch, neu sydd methu neu gallai bod yn methu â gofalu am eu hunain, neu sydd methu amddiffyn eu hunain yn erbyn niwed sylweddol neu ecsbloetiaeth difrifol.
Lles	Diffiniwyd Lles mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014: a. iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol b. amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod c. addysg, hyfforddiant a hamdden d. perthnasau domestig, teuluol a phersonol e. cyfraniad a wnaed i'r gymdeithas f. sicrhau hawliau g. lles cymdeithasol ac economaidd h. addasrwydd llety byw Mewn perthynas â phlentyn, mae "lles" hefyd yn cynnwys: a. datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol b. fel y mae'r gair "lles" wedi'i ddehongli at ddibenion y Ddeddf Plant 1989.

Atodiad 3: Mathau o Gamdriniaeth

Camdriniaeth Gorfforol: Gall gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol fel arall. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu warchodwr yn ffugio symptomau neu'n achosi salwch mewn plentyn yn fwriadol.

Camdriniaeth Emosiynol: Gall gynnwys cyfleu i bobl ifanc eu bod yn ddiwerth, yn annigonol a nas cerir. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiberfwlio), gan achosi pobl ifanc yn aml i deimlo'n ofnus neu mewn perygl; neu ecsbloetio neu lygru plant neu oedolion bregus. Mae rhywfaint o gamdriniaeth emosiynol yn ymwneud â phob math o gamdriniaeth, er y gall ddigwydd ar ei phen ei hun.

Camdriniaeth Rywiol: Mae hyn yn cynnwys gorfodi neu ddenu pobl ifanc neu fregus i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, nid ydynt o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad trwy dreiddio (er enghraifft, trais rhywiol neu ryw geneuol) neu weithgareddau di-dreiddiad megis mastyrbeiddio, cusanu, rhwbio, a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gall hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt megis edrych ar, neu gynhyrchu, delweddau rhywiol; gwylio gweithgareddau rhywiol; neu feithrin perthynas amhriodol gyda phlentyn neu berson bregus i baratoi ar gyfer camdriniaeth. Nid yw camdriniaeth rywiol yn cael ei chyflawni gan ddynion yn unig. Gall menywod hefyd gyflawni camdriniaeth rywiol, fel y gall plant a phobl ifanc eraill.

Esgeulustod: Methiant parhaus i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plant neu oedolion bregus, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol i'w hiechyd neu eu datblygiad. Gall esgeulustod hefyd ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau ar ran y fam. Gall esgeulustod golygu bod rhiant neu warchodwr yn methu â darparu bwyd, dillad neu loches ddigonol.

Camdriniaeth Wahaniaethol: Yn cynnwys ymddygiad hiliol, rhywiaethol, ac ymddygiad sy'n seiliedig ar anabledd wedi'i anelu at fyfyriwr, a mathau eraill o aflonyddu.

Camdriniaeth Ariannol neu Ddeunyddiol: Dwyn eiddo neu arian plentyn neu oedolyn bregus, neu fwlio i'w gorfodi i roi arian neu eiddo.

Camdriniaeth Sefydliadol/Arferion Gwael: Gofal amhriodol, amharchus neu annigonol, sy'n effeithio ar y lleoliad cyfan, ac yn gwrthod neu'n cyfyngu ar urddas, dewisiadau neu foddhad pobl fregus.

Camdriniaeth Ddigyswllt: Camdriniaeth sydd ddim yn cynnwys cyswllt corfforol gwirioneddol, e.e. ffilmiau pornograffig neu dreisgar, perfformio gweithredoedd rhywiol o flaen y dioddefwr, gweithredoedd treisgar gyda'r person sy'n cael ei gam-drin yn bresennol.

Risg i hunan a/neu eraill: Gall gynnwys, ond nid yw'n eithriadol i, hunan-niwed, tueddiadau hunanddinistriol, neu risg posibl o niweidio eraill, a all gynnwys plant neu beidio. Gall hwn fod o ganlyniad i unigolyn yn dioddef lefel sylweddol o drawma a/neu straen emosiynol personol. Mae'r

term hunan-niwed yn ymdrin ag amrywiaeth o ymddygiadau a ddefnyddir fel dulliau ymdopi lle mae unigolion yn niweidio eu hunain trwy beri poen gorfforol neu ormodedd i ymdopi â phoen emosiynol. Mae dulliau hunan-niwed bwriadol cyffredin yn cynnwys:

- Cutting
- Gorfwyta neu beidio bwyta digon
- Llogi'r croen
- Mewnosod gwrthrychau i'r corff
- Taro'ch hunain neu waliau
- Gorddosio
- Llyncu sylweddau peryglus
- Ymarfer y corff yn ormodol
- Crafu a thynnu gwallt

Camdriniaeth Ariannol neu Ddeunyddiol: yn cynnwys lladrad; twyll; ecsbloetiaeth; pwysedd mewn cysylltiad ag ewyllysiau, eiddo neu etifeddiaeth o drafodion ariannol; neu gamddefnyddio neu gam-adfeddu eiddo, meddiannau neu fudd-daliadau.

Camfanteisio Rhywiol: Math o gamdriniaeth rywiol lle mae plant neu bobl ifanc yn cael eu ecbloetio'n rhywiol am arian, pŵer neu statws. Gall gynnwys ymosodiadau rhywiol treisgar, gwaradwyddus a diraddiol. Ni all bobl ifanc (dan 18 oed) rhoi caniatâd, hyd yn oed os ydynt yn credu eu bod yn cymryd rhan yn wirfoddol mewn gweithgareddau rhywiol gyda'r person sy'n eu hecsbloetio. Nid yw camfanteisio rhywiol bob amser yn golygu cyswllt corfforol, a gall ddigwydd ar-lein.

Secstio: Yn gyffredinol, mae secstio yn cyfeirio at anfon delweddau rhywiol trwy negeseuon testun, e-bost, negeseuon chwim (e.e. Google Hangouts, WhatsApp neu Facebook Messenger), neu drwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol. Mae pobl ifanc (dan 18 oed) sy'n tecstio lluniau rhywiol o'u hunain trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cyflawni trosedd (dosbarthu pornograffi plant) a gallant fod yn atebol i'r heddlu, hyd yn oed os yw eu gweithredoedd yn gwbl wirfoddol.

Priodas dan Orfod: Mae gorfodi rhywun i briodi yn drosedd yng Nghymru a Lloegr. Mae priodas dan orfod yn un a chofrestrir heb gydsyniad llawn a rhydd y ddau berson, a lle mae trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth yn cael ei ddefnyddio i achosi person i briodi.

Trais ar sail Anrhydedd: Mae trais ar sail anrhydedd yn cwmpasu troseddau sydd wedi'u cyflawni i ddiogelu neu amddiffyn anrhydedd teulu a/neu gymuned, gan gynnwys llurguniad organau rhywiol merched, priodasau dan orfod, ac arferion megis haearnio ar y fron. Mae pob math o drais ar sail anrhydedd yn gamdriniaeth a dylid eu trin fel y cyfryw.

Anffurfio Organau Rhywiol Benywod (FGM): Mae yna ddyletswydd adrodd orfodol o ran anffurfio organau rhywiol benywod, ac mae'n cynnwys yr holl weithdrefnau sy'n ymwneud â chael gwared ag organau rhywiol allanol benywod yn llawn neu'n rhannol, neu anafiadau eraill i'r organau rhywiol benywaidd. Mae'n anghyfreithlon yn y DU, ac yn fath o gam-drin plant. Mae Adran 5B Deddf Anffurfio Organau Rhywiol Benywod 2003 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 74 y

Ddeddf Troseddau Difrifol 2015) yn rhoi dyletswydd ar athrawon/tiwtoriaid i adrodd i'r heddlu lle maent yn darganfod bod FGM yn ymddangos ei fod wedi'i gyflawni ar blentyn dan 18 oed.

Atodiad 4: Strwythur Tîm Diogelu'r Coleg a Chysylltiadau

Mae sawl ffordd i chi rhoi gwybod am bryderon diogelu:

1. E-bostio wellbeing@bridgend.ac.uk

   Mae pob aelod o'r Tîm Lles yn gallu cael mynediad i'r inbocs hwn, ac mae'n cael ei fonitro Dydd Llun i Ddydd Iau 8:30-17:00 a Dydd Gwener 8:30-16:30 trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfnodau gwyliau ond yn eithrio gwyliau banc a'r cyfnod cau dros Nadolig.

2. Ffonio 01656 302 302 est. 488

3. Cwblhau ffurflen ddatgelu a geir ar y porth staff.

4. Wyneb yn wyneb. Gallwch adnabod pobl sydd wedi'u hyfforddi i ddelio â phryderon diogelu yn hawdd gan eu cortynnau 'Tîm Lles' porffor.

Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy



Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

Atodiad 5: Sicrhau Ymwybyddiaeth

Mae nifer o fesurau yn bodoli i sicrhau bod staff, myfyrwyr, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'n dyletswyddau a'n disgwyliadau mewn perthynas â diogelu ac atal.

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Mae'r Tîm Lles sy'n gyfrifol am ddiogelu yn hawdd i'w hadnabod gan eu cortynnau 'Tîm Lles' porffor.
- Mae'r ymwelwyr a'r contractwyr i gyd yn cofrestru yn y dderbynfa ac yn cael bathodyn adnabod ffotograffig personol i'w wisgo tra yn y coleg.
- Mae pob ymwelydd a chontractwr yn cael llyfryn cyngor diogelu dwyieithog ar ôl cofrestru.
- Cyhoeddir negeseuon adrodd allweddol ar sgriniau electronig ar draws campysau'r coleg.
- Modiwl hyfforddi diogelu ar-lein ar gyfer y staff cyfan.
- Botwm 'Adroddwch Bryder' ar borth y staff.

Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

Atodiad 6: Manylion Cyswllt Brys – Gwasanaethau Cymdeithasol

Dylech ond adrodd am bryder diogelu pryd na allwch siarad â Thîm Lles, Rheolwr Diogelu a Lles Dynodedig neu Uwch Berson Dynodedig y coleg. Gallwch hefyd ofyn am gyngor gan ddefnyddio rhif di-argyfwng yr heddlu 101.

Os ydych yn gwneud atgyfeiriad yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion bregus, bydd rhaid i chi gysylltu âg adran briodol y Cyngor ar gyfer lle mae'r person yn byw.

Mewn argyfwng, deialwch (9)999 os ydych chi'n defnyddio ffôn Coleg, neu 999 fel arall.

Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr
Gorsaf Heddlu Llangrallo
Pen-y-bont ar Ogwr
01656 651 660

Gwasanaethau Plant	Amddiffyn Oedolion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Gwasanaethau Plant Tîm Derbyn ac Asesu: 01656 642320 (24 awr)	**Bridgend County Borough Council** Tîm Asesu Cydlynydd Amddiffyn Oedolion Ffôn: 01656 642479
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Bwrdd Diogelu Plant Tîm Cyswllt ac Atgyfeirio: 0808 100 1727 Tîm Dyletswydd Brys De Ddwyrain Cymru Ar Ôl Oriau Gwaith Ffôn: 0808 328 4432	**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** Gwasanaethau Oedolion Ffôn: 0808 100 2500 neu 01443 873635 (Rheolwr) Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith Ffôn: 0808 328 4432
Cyngor Caerdydd Tîm Gwasanaethau Plant: 02920 536 400 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 02920 448 360	**Cyngor Caerdydd** Tîm Amddiffyn Oedolion Bregus: 02920 536436 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 02920 788 570
Cyngor Abertawe Tîm Mynediad ac Asesu Cychwynnol: 01792 635700 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01792 775 501	**Cyngor Abertawe** Tîm Amddiffyn Oedolion Bregus: 01792 636 854 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01792 775 501
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Tîm Derbyn ac Asesu Swyddog Dyletswydd: 01685 724 525 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01443 849944	**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** Tîm Amddiffyn Oedolion Bregus Ffôn: 01685 724 507 / 725000 / 724594 (Rheolwr) Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01443 849944
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Tîm Derbyn ac Asesu Swyddog Dyletswydd: 01639 685717 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01639 895 455	**Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** Tîm Amddiffyn Oedolion Bregus Ffôn: 01639 763 009 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01639 895 455
Cyngor Dinas Casnewydd Canolfan Gyswllt: 01633 656 656 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 0800 328 4432	**Cyngor Dinas Casnewydd** Canolfan Gyswllt: 01633 656 656 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 0800 328 4432
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Tîm Dyletswydd Gwaith Cymdeithasol: 01443 486731 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01443 849 944	**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** Cydlynydd Amddiffyn Oedolion: 01443 427755 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01443 849 944
Bro Morgannwg Tîm Derbyn ac Asesu: 01446 725206 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 02920 448 360	**Bro Morgannwg** Cydlynydd Amddiffyn Oedolion Bregus: 01446 704 740 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 02920 448 360

Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

Asesiad Effaith Iaith Gymraeg

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Diogelu Pobl Ifanc ac Oedolion Bregus					
Perchennog y Polisi	Joe Baldwin					
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Diogelu Pobl Ifanc ac Oedolion Bregus					
Pwy y mae'r polisi hwn yn eu heffeithio?	**Dysgwyr**	✓	**Staff**	✓	**Y Cyhoedd**	✓

Safonau'r Gymraeg

Rhif	Math	Safon	Cadarnhaol (gallai fod o fudd)	Negyddol (gallai effeithio)	Dim Effaith
94	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.			✓
95	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.		✓	
96	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a			✓

		(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.			
97	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg			✓
98	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	✓		
99	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	✓		
101	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg			✓

102	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.			✓
103	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.			✓

Polisi Coleg Penybont
Bridgend College Policy

Cynllun Gweithredu

Dylai'r camau gweithredu ddangos y camau i'w cymryd er mwyn lleihau, neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg.

Gweithred	**Pwy**	**Erbyn Pryd**	**Mesur Llwyddiant** *(sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r camau gweithredu)*
Safon 96	Sam Gunnarsson	Dyddiad Cyhoeddi	Sicrhau bod y ddogfen ddatgelu ar gael yn Gymraeg
Safon 98 a 99	Joe Baldwin	Ymgynghoriad 30 diwrnod	Bydd gan bob aelod staff gyfnod o 30 diwrnod i gynnig mewnwelediad a chyngor ar unrhyw newidiadau i'r polisi er mwyn cefnogi defnyddwyr Cymraeg.

Dyddiad Cwblhau'r Asesiad: 2il o Fawrth 2018